

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Offerynnau Statudol gydag Adroddiadau Clir
22 Chwefror 2016

CLA656 - Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 1 i Orchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008. Mae'n nodi cod enghreifftiol o ran yr ymddygiad y disgwylir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol yng Nghymru ei arddel o dan adran 50(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Mae'r Gorchymyn yn darparu ar gyfer:

- cael gwared ar y gofyniad i aelodau adrodd ar achosion posibl o ymddygiad sy'n groes i'w cod ymddygiad i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
- trosglwyddo rhai swyddogaethau oddi ar swyddogion monitro i swyddogion priodol cynghorau cymuned;
- bod diwygiadau yn adlewyrchu'r darpariaethau newydd a geir yn Rhan 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â lwfansau a thaliadau;
- caniatáu i aelodau gyflwyno cyflwyniadau ysgrifenedig i gyfarfod sy'n ymdrin â mater y mae gan aelod fuddiant niweidio ynddo;
- egluro y dylid cofrestru unrhyw fuddiant a ddatgelir yng nghofrestr yr awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy hysbysu'r swyddog monitro/swyddog priodol (fel sy'n berthnasol); ac
- nad yw aelod o awdurdod perthnasol i'w ystyried i fod â buddiant personol mewn mater wrth wneud, neu gymryd rhan mewn, penderfyniadau ar ran yr awdurdod am y rheswm syml fod y busnes sy'n cael ei ystyried yn y cyfarfod yn effeithio ar ward yr aelod hwnnw.

CLA657 - Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio tair set flaenorol o Reoliadau.



Mae rheoliad 2 yn diwygio'r darpariaethau presennol er mwyn hwyluso gweithrediad cydbwyllgorau safonau ac yn ymwneud â hyd cyfnod swydd aelodau o bwyllgorau safonau. Mae hefyd yn egluro bod awdurdod perthnasol wedi ei eithrio rhag sicrhau bod yr adroddiad neu'r argymhellion ar ymchwiliad ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt hyd nes y bydd trafodion camymddygiad wedi dod i ben.

Mae rheoliad 3 yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi swyddog monitro a phwyllgor safonau un awdurdod i atgyfeirio adroddiad neu argymhellion y swyddog monitro i bwyllgor safonau awdurdod arall iddo ddyfarnu arnynt. Mae hefyd yn manylu ar y weithdrefn ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau.

Mae rheoliad 4 yn darparu gweithdrefn ar gyfer atgyfeirio cais aelod am ollyngiad i bwyllgor safonau awdurdod arall iddo ddyfarnu arno.

CLA659 - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Apelau Dilysu) (Cymru) 2016

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r weithdrefn ar gyfer penderfynu ar apelau dilysu a wneir i Weinidogion Cymru o dan adran 62ZB o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Yn unol ag adran 62ZB(6) mae apelau dilysu yn cael eu hystyried ar sail sylwadau ysgrifenedig. Mae'r weithdrefn yn cynnwys y camau a ganlyn:

- rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad eu bod wedi cael yr apêl (rheoliad 3);
- ni roddir cyfle i'r apelydd nac i'r awdurdod cynllunio lleol gyflwyno sylw ar sylwadau'r naill a'r llall (rheoliad 4); a
- rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol am eu penderfyniad a'u rhesymau dros wneud y penderfyniad hwnnw (rheoliad 6).

CLA660 - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Aseu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro gwall yn nhestun Cymraeg Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012 (O.S. 2012/793 (Cy 108)).

CLA665 - Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016

Gweithdrefn: Negyddol

Mae datblygiad yng Nghymru yn ddatblygiad o arwyddocâd cenedlaethol os yw'n bodloni'r meini prawf a bennir mewn rheoliadau neu os pennir ei fod yn ddatblygiad o'r fath yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.



Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer y modd y bydd Gweinidogion Cymru yn ymdrin â cheisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad o'r fath.

CLA666 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2016

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Cyflawnwyr) (Cymru) 2004 ('Rheoliadau 2004').

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2004 er mwyn:

- caniatáu i feddyg teulu/deintydd gael ei gynnwys dros dro ar unwaith ar restr cyflawnwyr Bwrdd Iechyd Lleol ar ôl derbyn ei gais, wrth i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wneud gwiriadau pellach ar ran y Byrddau Iechyd Lleol;
- ymestyn y dyddiad cau ar gyfer y gofyniad i ddangos copi o dystysgrif cofnod troseddol uwch o fewn 6 mis i wneud cais i fod ar y rhestr cyflawnwyr, i 3 blynedd;
- cael gwared ar y gofyniad i feddyg teulu/deintydd roi manylion am ei gymwysterau meddygol, ac yn hytrach rhoi caniatâd i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ofyn am y wybodaeth hon gan ddeiliad ei restr cyflawnwyr yn y gwledydd cartref eraill.

CLA671 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2016

Gweithdrefn: Negyddol

Cyflwynodd Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 fframwaith cyfreithiol y caiff llywodraeth leol ymgymryd â gwariant cyfalaf oddi mewn iddo. Caiff Gweinidogion Cymru reoleiddio'r gweithgarwch hwnnw drwy reoliadau. Gwnaed darpariaeth o'r fath gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/3239) ("Rheoliadau 2003"), sydd wedi'u diwygio ers hynny.

Mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau 2003 ymhellach drwy gael gwared ar y gofyniad i awdurdodau lleol gydnabod, mewn cyfrif refeniw, y gwahaniaeth rhwng gwerth teg a'r gwerth y cytunwyd arno ar gyfer y benthyciadau a gafwyd gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) ac a dynnwyd i lawr ar 2 Ebrill 2015 er mwyn prynu'r System Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai. Nid yw'r rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw rwymedigaethau eraill sydd y tu allan i'r disgrifiad hwn.

Rhaid cydnabod y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau'r BBGC mewn cyfrif refeniw ar y diwrnod y mae awdurdod yn dod yn atebol am y llog hwnnw, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol.



CLA672 - Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2016

Gweithdrefn: Negyddol

Yn ddarostyngedig i rai newidiadau ac un ddarpariaeth drosiannol ac arbed, mae'r Gorchymyn hwn yn disodli Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol 2012.

CLA673 - Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2006 (O.S. 2006/2929 (Cy. 264)), sydd wedi eu diwygio ar sawl achlysur.

Mae'r Rheoliadau yn rheoli cynhyrchu gyda'r bwriad o farchnata, ardystio a marchnata tatws hadyd yng Nghymru, ac eithrio'r rheini a fwriedir ar gyfer eu hallforio y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Maent yn gweithredu amrywiol offerynnau Ewropeaidd, ac yn benodol Gyfarwyddeb y Cyngor 2002/56/EC ar farchnata tatws hadyd (OJ Rhif L 193, 20.07.2002, t. 60).

CLA675 - Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2016

Gweithdrefn: Negyddol

Mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013") yn nodi'r gofynion hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae'r gofynion hyfforddi mewn perthynas â data perfformiad ysgolion wedi eu nodi mewn dogfen o'r enw "Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol yng Nghymru ar ddeall data ysgolion" ac y mae cyfeiriad ati yn y diffiniad o "yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion" ("dogfen 2014") yn rheoliad 2 o Reoliadau 2013.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad hwnnw er mwyn rhoi yn lle'r cyfeiriad at ddogfen 2014, gyfeiriad at y gofynion hyfforddi newydd ar ddata perfformiad ysgolion a nodir mewn dogfen o'r enw "Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol yng Nghymru ar ddeall data ysgolion".

CLA682 - Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) (Diwygio) 2016

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009 drwy gael gwared ar y gofyniad i enwebu cyfarwyddwr anweithredol yr awdurdod lleol a chyfarwyddwr anweithredol y brifysgol. Mae'r Rheoliadau



hyn hefyd yn cael gwared ar y gofyniad bod gan gyfarwyddwr anweithredol y sector cyhoeddus rôl yng Nghymru. Ni fydd bellach yn ofynnol mai prifysgol yng Nghymru sy'n enwebu'r cyfarwyddwr anweithredol prifysgol, na bod ganddo arbenigaeth addysgu neu ymchwil ym maes iechyd y cyhoedd; yn lle hynny, yr unig ofyniad yw bod gan y person swydd cysylltiedig ag iechyd mewn prifysgol.

CLA684 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Canlyniadol Diwygio Lles) (Cymru) 2016

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio:-

- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986;
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997; a
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007.

Effaith y diwygiadau hyn yw caniatáu i'r Credyd Cynhwysol gael ei dderbyn fel budd-dal cymhwys fel na fydd yn rhaid i hawliwr dalu taliadau'r GIG yn llawn neu'n rhannol. Byddai'n basbort ar gyfer holl hawlwr y Credyd Cynhwysol o 1 Ebrill 2016.

Mae hyn yn caniatáu i'r rhai sy'n cael y Credyd Cynhwysol fod yn gymwys i gael triniaeth ddeintyddol y GIG am ddim, prawf golwg y GIG am ddim a chymorth tuag at gost sbectolau a chostau teithio, a chyflwyno hawliad o dan Gynllun Incwm Isel y GIG i gael cymorth gyda chostau iechyd.

CLA668 - Gorchymyn Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Gorchymyn hwn yn sefydlu'r Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru. Mae'r Panel yn gorff annibynnol sy'n cynghori Gweinidogion Cymru. Swyddogaethau'r Panel yw hybu gyrfaedd mewn amaethyddiaeth, llunio gorchymynion cyflogau amaethyddol ar ffurf ddrafft, ymgynghori ar y gorchymynion hynny a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru, a chynghori Gweinidogion Cymru ar unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â'r sector amaethyddol yng Nghymru, yn unol ag anghenion Gweinidogion Cymru.

Mae'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd wedi penderfynu defnyddio cymal arfer pwerau rhagflaenol (adran 13) Deddf Ddehongli 1978 i benodi Cadeirydd ac aelodau'r Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.



CLA669 - Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) (Diwygio) 2016

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016 ("y Prif Reoliadau") y disgwylir iddynt ddod i rym ar 1 Mawrth 2016.

Ymysg categorïau datblygu eraill, mae'r Prif Reoliadau yn darparu bod prosiectau cynhyrchu ynni sydd â gallu cynhyrchu rhwng 10MW a 50MW yn cael eu categoreiddio fel datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol.

Ers gosod y Prif Reoliadau, mae Llywodraeth y DU wedi gosod dau Orchymyn a fydd hefyd yn dod i rym ar 1 Mawrth 2016. Effaith y Gorchmynion fydd symud y broses ganiatâd ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ynni gwynt ar y tir â'r gallu i gynhyrchu dros 50MW o gyfundrefn a sefydlwyd o dan Ddeddf Cynllunio 2008 i'r system gynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif reoliadau i ddarparu bod yn rhaid cyflwyno ceisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio i (a) adeiladu ffermydd gwynt ar y tir fydd â gallu cynhyrchu o 10MW neu uwch, a (b) ehangu neu addasu fferm wynt ar y tir mewn modd sy'n cynyddu ei gallu cynhyrchu disgwylidig gan 10MW neu uwch, yng Nghymru i Weinidogion Cymru.

CLA676 - Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd ar hyn o bryd yn sail i'r ddarpariaeth gofal a chymorth i bobl a chymorth i ofalwyr yng Nghymru.

Yn gyffredinol, mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol sydd i gael ei diwygio ac sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth i oedolion a gofalwyr ("y ddeddfwriaeth gofal cymunedol gyfredol") yn gymwys o ran Cymru yn unig. Bydd y diwygiadau sydd wedi eu gwneud yn y Rheoliadau hyn yn golygu bod y ddeddfwriaeth gofal cymunedol gyfredol wedi ei diddymu, neu (i'r graddau y mae'n parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr) na fydd bellach yn gymwys o ran Cymru ond y bydd yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys darpariaethau trosiannol ac arbed sy'n berthnasol i'r bobl hynny sydd ar hyn o bryd yn derbyn gofal a chymorth yn y system bresennol wrth iddynt drosglwyddo i'r fframwaith newydd a sefydlwyd o dan Ddeddf 2014.

